POLISI
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mynegai

1. **Datganiad Cyffredinol**
2. **Gweithredu'r Polisi**
3. **Bwrdd Rheoli**
4. **Rolau a Chyfrifoldebau**
5. **Mynediad i Adeiladau a Gwasanaethau**
6. **Darparu Llety a Dyrannu Anheddau**
7. **Rheolaeth Tai**
8. **Ymgynghorwyr, Contractwyr ac Asiantau**
9. **Cyflogaeth**
10. **Polisïau Ystyriol o Deuluoedd**
11. **Hyfforddiant a Datblygu**
12. **Disgyblaeth ac achwynion**
13. **Cwynion**
14. **Cofnodi, Monitro, Adrodd ac Adolygu**

Atodiad A: Trosolwg o Ddeddfwriaeth Allweddol

1. Datganiad Cyffredinol

Mae Cantref yn gwbl ymrwymedig i'r egwyddor bod cyfle cyfartal yn gwbl sylfaenol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i'r cleientiaid ac i staff y gymdeithas. Ni fydd person neu bersonau sy'n gwneud cais am swydd, contract neu am lety neu'n gwneud cais am fod yn aelod o'r Bwrdd, yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail:

- Oed
- Statws Cymdeithasol
- Statws priodasol neu deuluol
- Anabledd corfforol ne feddyliol
- Rhyw
- Hil
- Diwylliant
- Tarddiad ethnig neu genedlaethol
- Lliw
- Cenedligrwydd
- Crefydd neu gredo
- Tueddfryd rhywiol
- Dewis iaith, ac eithrio fel sy'n ofynnol gan Ddisgrifiad Swydd

2. Gweithredu'r Polisi

Gweithredir y polisi hwn yn unol â darpariaethau statudol a deddfwriaeth (gweler Atodiad A "Trosolwg o ddeddfwriaeth allweddol"):

Deddf Cyflog Cyfartal 1975
Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) a (Chrefydd a Chredo) 2003
Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Rhyw (newid rhyw) 1999
Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (atal triniaeth llai ffafriol) 2000
Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 / (Diwygiad) 2000
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974
Deddf Lloches a Mewnfudo 1996

Bydd pob aelod o staff yn cael gwybod am y polisi. Hefyd bydd y staff yn derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd ar sut i ddarparu gwasanaethau sy'n ystyriol o amrywiol anghenion gwahanol bobl neu grwpiau o bobl.

Mae'n ofynnol i staff

- Ledaenu'r Polisi i bob aelod o staff, tenantiaid a chwsmeriaid, contractwyr, ymgynghorwyr ac asiantaethau cyflogi allanol
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar weithgareddau'r gymdeithas.

3. Bwrdd Rheoli

Dylai'r gynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli fod mor amrywiol â phosibl er mwyn i'r aelodau fod â'r profiad a'r gallu i hyrwyddo ac annog diwylliant o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gymdeithas a bod yn ymrwymedig i gael cynrychiolaeth eang o bob grŵp ymhlith ei aelodau. Bydd y Bwrdd yn gwneud adolygiad blynyddol o'i gryfderau a'i wendidau.

4. Rolau a Chyfrifoldebau

Y **Prif Weithredwr** sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol o roi arweiniad o ran gweithredu'r polisi.

Dylai **Rheolwyr** fod yn esiampl i eraill, cywiro ymddygiad annerbyniol, ymdrin â chwynion yn deg, a chymhwyso'r polisi i'w maes gwaith hwy.

Caiff **Staff** yn gyffredinol eu hannog yn frwd i gymhwyso arferion gwrth-wahaniaethol a dwyn sylw at unrhyw achos o ymddygiad nad yw'n cydymffurfio â'r polisi hwn.

5. Mynediad i Adeiladau a Gwasanaethau

Bydd Cantref yn sicrhau y bydd ei swyddfeydd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Bydd y rhannau hynny o'r swyddfeydd a ddefnyddir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu haddasu os bydd angen i sicrhau nad yw'n afresymol o anodd i bobl anabl ddefnyddio gwasanaethau Cantref.

Yn y rhannau eraill o'r swyddfeydd a ddefnyddir gan y staff ond nad ydynt ar agor i ddefnyddwyr y gwasanaeth, bydd Cantref yn gwneud addasiadau rhesymol i gydweddu ag anghenion y staff wrth i'r anghenion hynny ddod yn hysbys.

Hefyd bydd y gymdeithas yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn modd clir a chynhwysfawr. Ni ddarperir ffurfiau megis Braille, tâp sain ac ati fel mater o drefn ar hyn o bryd, ond gellir trefnu hynny dim ond gofyn.

Hyd yma nid yw Cantref wedi gweld bod unrhyw angen i ddarparu gwybodaeth mewn iaith heblaw am Gymraeg a Saesneg. Bydd Cantref yn monitro'r sefyllfa hon.

6. Darparu Llety a Dyrannu Anheddau

Nod Cantref yw darparu mynediad i lety a gwasanaethau eraill perthynol ar sail teg a chyfartal. Mae Cantref wedi ymrwymo i bolisi lletya sy'n sicrhau bod pob grŵp ac unigolyn â mynediad teg i'w hadnoddau.

Nod Cantref yw hyrwyddo cymunedau cynaliadwy. I'r perwyl hwn, bydd Cantref yn ystyried cysylltiadau lleol yr ymgeiswyr wrth ddyrannu llety. Bydd y pwysedd a roddir i gysylltiadau lleol yn cael eu nodi'n glir ym Mholisi Dyraniadau Cantref.

Bydd Cantref yn sicrhau y bydd canfyddiadau ymchwil, ymgynghori ag awdurdodau lleol ac ati ac arfer gorau yn canfod beth yn union yw anghenion unigolion o ran dyluniad, llunwedd, natur gymysg, lleoliad a daliadaeth llety.

Dewisir ymgeiswyr llwyddiannus yn ôl meini prawf angen am lety a nodir yn y Polisi Gosod. Cesglir manylion am hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd, dewis iaith, a rhyw, a dadansoddir y manylion hyn er mwyn monitro cydraddoldeb, a'u defnyddio i fwydo gwybodaeth i arferion yn y dyfodol. Cyflwynir adroddiad ar yr ystadegau i'r Bwrdd Rheoli yn flynyddol.

Mae Cantref yn bartner mewn tair Cofrestr Tai Gyffredin.

7. Rheolaeth Tai

Mae Cantref yn sicrhau yr ymdrinnir â phob tenant yn gyfartal, ac nid yw'n goddef unrhyw achos o wahaniaethu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Polisi Poendod ac Aflonyddu.

Bydd Cantref yn adolygu bob dwy flynedd pa mor fodlon yw'r tenantiaid â'r gwasanaethau a ddarperir gennym.

Bydd Cantref ond yn cydnabod yn ffurfiol ac yn cefnogi cymdeithasau a grwpiau tenantiaid sydd â pholisïau cyfle cyfartal a/neu bolisïau amrywiaeth sy'n dderbyniol i Cantref ac yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

8. Ymgynghorwyr, Contractwyr ac Asiantau

Wrth ddyrannu gwaith i gontractwyr ac ati mae Cantref yn sicrhau yr ymdrinnir â phawb yn gyfartal, ac yn sicrhau y penodir yr ymgynghorydd, contractwr ac asiant mwyaf priodol.

Mae Cantref yn cydnabod mai contractwyr sy'n darparu llawer o'u gwasanaethau i'r tenant. Mae Cantref felly yn sicrhau bod contractwyr, ymgynghorwyr ac asiantau a gyflogir sydd â mwy na 20 o weithwyr wedi mabwysiadu eu polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain.

Rhaid i gontractwyr sydd â llai nag 20 o weithwyr lofnodi datganiad yn ymgymryd â chydymffurfio â pholisi'r Gymdeithas. Hefyd mae angen i gwmnïau sicrhau bod pob un o'u staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn ei weithredu ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae hyn hefyd yn gymwys i is-gontractwyr.

9. Cyflogaeth

9.1Hysbysebu

Dylai hysbysebion recriwtio annog ceisiadau o bob sector o'r gymuned. Hefyd bydd yr hysbysebion ar fformat na fydd yn peri i unrhyw ymgeisydd beidio â chyflwyno cais.

9.2Disgrifiadau Swydd

Bydd Cantref yn sicrhau bod Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person ac ati yn seiliedig ar ofynion hanfodol y swydd y gellir eu cyfiawnhau, ac mai ond cymwysterau realistig y gofynnir amdanynt.

9.3Ffurflenni Cais

Ni dderbynnir CV's.

9.4Rhestr fer

Ni chyflwynir manylion personol ymgeiswyr i'r panel rhestr fer er mwyn i'r gwaith o ddewis yr ymgeiswyr i gael cyfweliad gael ei wneud ar sail eu sgiliau a'u profiad yn unig. Bydd pob penderfyniad a wneir yn ystod llunio rhestr fer a phenodi yn cael ei wneud ar sail tystiolaeth, a gellir cyfiawnhau'r rhesymau dros y penderfyniadau.

9.5Cyfweld

Dylai aelodau'r panel cyfweld fod o wahanol gefndiroedd, a chael hyfforddiant a chyfarwyddyd.

9.6Monitro

Bydd Cantref yn monitro rhyw, oed ac ati pob ymgeisydd am swydd a rhoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd am gyfansoddiad ymgeiswyr am swyddi.

9.7Adolygu

Bydd gweithdrefnau, ffurflenni cais am swydd ac ati yn cael eu hadolygu bob hyn a hyn i ddiddymu arferion gwahaniaethol.

10. Polisïau Ystyriol o Deuluoedd

Mae Cantref bob amser yn ystyried gweithio oriau hyblyg – sef gweithio oriau heblaw am oriau gwaith "arferol". Gall hyn gynnwys gweithio adeg tymor, rhannu swydd ac ati.

11. Hyfforddiant a Datblygu

11.1 Ymsefydlu

Yn ystod proses ymsefydlu a weithredir gan y Gymdeithas pwysleisir yr angen am i'r staff fod yn ymwybodol o'r polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a bod y staff yn deall sut y disgwylir iddynt ymddwyn tra'n cyflawni gwaith y gymdeithas.

11.2 Hyfforddiant

Anogir pob aelod o staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant er mwyn lledaenu eu sgiliau er budd y gymdeithas, er budd iddynt hwy ac i'r cleientiaid. Trefnir dyddiadau ac amserau hyfforddiant cyn belled ag sy'n bosibl i sicrhau nad yw staff rhan-amser ac ati dan anfantais.

12. Disgyblaeth ac Achwynion

Mae gan Cantref weithdrefnau clir a chryno ar ddisgyblaeth a chwynion a weithredir yn deg ac yn dryloyw i bob aelod o staff. Ymdrinnir â honiadau o driniaeth llai ffafriol o dan y gweithdrefnau priodol.

13. Cwynion

Bydd pob cwyn ynghylch gwahaniaethu, erledigaeth a/neu aflonyddu gan gleientiaid allanol yn cael eu hymchwilio yn ddiymdroi ac mewn modd sensitif drwy ddilyn gweithdrefn y gymdeithas o ymdrin â chwynion.

14. Cofnodi, Monitro, Adrodd ac Adolygu

Cesglir ystadegau i fonitro cydraddoldeb ar draws pob agwedd ar weithgareddau'r gymdeithas, ac fe'u defnyddir i lunio arferion yn y dyfodol.